COFNODION CYFARFOD MISOL CYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Medi 11eg, 2019 am saith o'r gloch

PRESENNOL

O. Hefin Roberts (Cadeirydd), G. Ian Evans (Is-gadeirydd), Angharad Correia-Martins, Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, Cyng. Dewi W. Roberts (Cyngor Gwynedd – Sylwebydd)

YMDDIHEURIADAU

Alun Jones, William B. Williams, Cyng. John B. Hughes (Cyngor Gwynedd - Sylwebydd)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Dymunwyd gwellhad buan i'r Cyng. Alun Jones, yn dilyn ei anffawd ddiweddar.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Cynghorwyr John Gwilym Jones a Dylan Llwyd fuddiant yng nghais cynllunio C19/0812/39/LL - Ymestyn cyfnod meddiannu gwyliau i fod ar agor trwy'r flwyddyn at bwrpas gwyliau - The Warren, Aber-soch , gan eu bod yn berchnogion ar safle carafanau sefydlog eu hunain.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Orffennaf 17eg, 2019 yn gywir.

3. **EITEMAU BRYS (Cadeirydd/Clerc) – Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

Ni dderbyniwyd dim.

4. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Anfonwyd sylwadau ar y ceisiadau a ganlyn yn ystod y gwyliau:

C19/0579/39/LL C19/0580/39/CR	Addasiadau mewnol ac allanol i drosi adeilad allanol yn rhan o'r tŷ – Gorphwysfa, Llanengan **– Cefnogir**
C19/0707/39/LL	Cais i gynnal addasiadau ac ymestyn eiddo preswyl – 5 Benarfryn, Lôn Traeth, Aber-soch **– Cefnogir**
C19/0730/39/LL	Cais i gadw adeiladau/strwythurau'n gysylltiedig â defnydd y safle fel caffi/iard storio cychod - Mickey's Beach Cafe, Marchros, Bwlchtocyn - **Gwrthwynebir oherwydd y rhesymau a godwyd ers cyflwyno'r cais gwreiddiol (gweler copi o'r ohebiaeth yn atodedig), yn arbennig o ran newid ei enw o 'Mickey's Boatyard' i 'Beach Cafe' erbyn hwn. Anghytunir â'r hyn a nodir yn y cais presennol**

nad yw'r datblygiad yn amlwg o'r Llwybr Arfordir er enghraifft - fe'i gwelir o bob man. Pryderir am y cynnydd yn y parcio mewn maes bychan ac ar y ffordd gul sydd ddigon peryglus ar y gorau, diffyg toiledau oherwydd fe'i defnyddir fel caffi erbyn hyn o gymharu ag un i werthu bwyd i'w gario allan ac iard gychod yn wreiddiol. Yn ogystal, derbyniwyd cwynion a gwrthwynebiadau di-ri (drwy law'r Aelod Lleol) oddi wrth drigolion lleol, yn bennaf oherwydd yr arogleuon coginio a effeithia ar eu tai, yn dilyn symud lleoliad y gegin. O ganlyniad, hyderir y gwrthodir y cais hwn a, hyd yn oed, dwyn camau gorfodaeth yn erbyn y perchennog [Datgan Diddordeb - OLJ]

C19/0739/39/LL Creu pwll ar gyfer bywyd gwyllt – Elim, Lôn Garmon, Aber-soch – **Cefnogir**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C19/0743/39/LL Dymchwel tŷ presennol ac adeiladu un newydd ar yr un safle, ynghyd â datblygiadau cysylltiadau bach - Cartrefle Bach, Aber-soch **- Gwrthwynebir oherwydd ei fod yn orddatblygiad a chryn dipyn yn uwch a mwy o faint na'r tŷ presennol. Hefyd, gwaredir y safle parcio presennol i'w adeiladu. O ganlyniad, pryderir, er y lleolir y tŷ ar ffordd breifat, y byddai'r ceir ychwanegol (mae gan bob tŷ o leiaf ddau gar erbyn hyn) yn rhwystr pe bai angen i'r gwasanaethau brys fynd heibio**

C19/0755/39/LL Estyniad cefn ac ochr – Cadlan, Lôn Rhoslyn, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd ei fod yn orddatblygiad o'r safle ac y lleiheir safle parcio presennol yr eiddo. Er y'i lleolir ar ffordd breifat (Lôn Rhoslyn) pryderir am hyn pe bai angen i'r gwasanaethau brys gael mynediad iddi wrth i fwy o geir (mae gan bob tŷ o leiaf ddau gar erbyn hyn) barcio arni**

C19/0807/39/LL Adeiladu sied storio amaethyddol – Tir ger Berthwen, Bwlchtocyn **– Cefnogir ar yr amod y plennir coed o'i hamgylch i'w chuddio'n gyfan gwbl**

C19/0812/39/LL Ymestyn cyfnod meddiannu gwyliau i fod ar agor trwy'r flwyddyn at bwrpas gwyliau - The Warren, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd y gallai arwain at droi'r safle'n 'ystâd o gartrefi parhaol newydd' a fuasai'n cynyddu nifer tai haf y gymuned. Hefyd, byddai'n gynsail i safleoedd eraill ofyn am ymestyn y cyfnod meddiannu [Datgan Diddordeb – JGJ a DLl]**

C19/0816/39/LL Sied bren unllawr tu cefn i'r annedd – 4 Cae Du, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd mae'n orddatblygiad fuasai'n gorlenwi safle cyfyng, yn arbennig o gofio y caniatawyd modurdy a storfa yno eisoes. Hefyd, amhara ar olwg cymdogion o'r safle**

5. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**

i) ***Cytundeb***

Ni dderbyniwyd anfoneb i'r uchod er cysylltu eto.

ii) ***Incwm y Toiledau***

Banciwyd £930.45 ers cyfarfod mis Gorffennaf. Ni fu trafferthion amlwg eleni dim ond darganfod cerrig yn dal y drysau ar agor yr wythnos yn dilyn Gŵyl y Banc.
Gofynnwyd pryd y cloir y giât - chwech o'r gloch; penderfynwyd gofyn a fyddai modd ei ymestyn tan wyth o'r gloch yr un amser ag y caea giatiau'r traeth. Deallwyd y dringa rhai rhwng y giât a'r goeden - mae digon o le i rywun wneud. Awgrymodd y Clerc y dylid ei lenwi neu ei gau, gan ei bod yn ddigon hawdd dringo a chamu trwyddo. Penderfynwyd cysylltu i ofyn a oes modd ymestyn yr amser yn ystod y tymor gwyliau.

b) **11. Gohebiaeth: b) Arloesi Gwynedd Wledig – Newyddlen mis Ebrill**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach.

c) **11. Gohebiaeth: c) Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd – Mickey's Boatyard, Marchros**
Derbyniwyd copïau, er gwybodaeth, o gwynion a gwrthwynebiadau i'r cais cynllunio a phryderon am y safle'n gyffredinol, yn arbennig diffyg lle parcio. Penderfynwyd gofyn i Adran Gwarchod y Cyhoedd weithredu Gorchymyn Gorfodaeth ar y safle. Dangoswyd llun o gwt 'bywadwy' ochr draw i'r iard gychod – fe'i cuddir gan ffens; ni sonnir amdano yn y cais cynllunio diweddar – hysbysir yr Adran Gynllunio.

ch) **Hunan*iaith* – Grŵp Cynllunio Ffyniant y Gymraeg**
Cynhelir cyfarfod nos Fercher nesaf, Medi 18fed am 6.30 o'r gloch yn Neuadd Aber-soch i greu Cynllun Gweithredu o'r hyn a drafodwyd ym mis Mehefin.

c) **Cyfoeth Naturiol Cymru – Cytundeb Torri'r Foel**
Ni dderbyniwyd copi o'r cytundeb drafft er cysylltu eto.

6. **MYNWENT**

a) **Prisiau Claddu Newydd**
Ni lwyddwyd trefnu cyfarfod o'r Is-bwyllgor i drafod yr uchod.

b) **Claddu Blychau Llwch**
Derbyniwyd cais oddi wrth yr ymgymerwr i benderfynu ar leoliad claddu llwch yn yr estyniad. Cyfarfu'r Is-bwyllgor i'w drafod a phenderfynwyd y gellid claddu un neu ddau wrth wal y fynedfa sy'n gwahanu'r ddwy fynwent ac ochr draw i'r fainc goffa a osodwyd yn ddiweddar. Awgrymwyd efallai y gellid eu claddu lawr ochr y wal newydd hefyd.

c) **Yr Hen Fynwent**
Mynegwyd pryder am y posibilrwydd o brinder lle parcio ar gyfer angladdau pe gwerthid y capel – gwerthwyd rhan ohono eisoes â'r Tŷ Capel; cysylltir â'r Henaduriaeth.

7. **CAEAU CHWARAE**

a) **Offer Newydd – Prisiau Goliau**
Derbyniwyd pris o £60.00 am beipen 5mm neu £37.00 am 3mm ond heb ei galfaneiddio i wneud gôl 16 troedfedd. Gofynnir am bris wedi'i galfaneiddio eto. Gan fod un o goliau Cae Chwarae Mynytho wedi diflannu, bydd angen cael un newydd yno hefyd.

Adroddwyd bod angen torri'r coed helyg yng Nghae Chwarae Mynytho eto.

b) **Archwilio Coed yr Allt a Chae Chwarae Aber-soch**
Cwblhawyd y gwaith drannoeth cyfarfod mis Gorffennaf.

c) **Paentio'r Offer**
Ni dderbyniwyd anfoneb am y gwaith a wnaed eisoes. Cysylltodd y contractwr i holi am baentio arhosfan bws Parciau, Mynytho.

ch) **Archwiliad Iechyd a Diogelwch**
Cynhelir yr archwiliad ddydd Llun nesaf, Medi 16eg erbyn hyn.

d) **Mainc Solar**
Gan na chyfarfu'r Is-bwyllgor Ariannol i drafod y fainc solar eto, awgrymodd y Clerc tybed a ellid defnyddio'r gymynrodd a dderbyniwyd y llynedd i brynu un a'i gosod yng Nghae Chwarae Aber-soch? Ni lwyddwyd ymweld â Chonwy i dynnu llun yr un sydd ar y cei yno a'r ddwy arall yn Llangernyw a Llanfair Talhaearn yn ystod y gwyliau. Bwriedir cysylltu hefyd â Chlercod y ddau Gyngor Cymuned i holi am eu defnydd.

8. **CYFRIFON**

a) **Archwiliad Ariannol Allanol 2018 – 2019**
Ymatebwyd i'r ddau bwynt/ymholiad a dderbyniwyd oddi wrth BDO parthed yr uchod:

1. *ni chytuna'r dadansoddiad o incwm a gwariant â'r ffurflen flynyddol* – sylweddolwyd na chynhwyswyd Cyfrif y Fynwent yn yr esboniad (gweler copi diwygiedig)
2. *cynyddodd yr asedau sefydlog £19,762.00 (10%). Ni ddarparwyd esboniad â'r dogfennau gwreiddiol* – eglurwyd mai prynu offer a gosod ffens newydd yng Nghae Chwarae Aber-soch yw'r cynnydd. Anfonwyd copi arall o'r Gofrestr Asedau er gwybodaeth.

Ni dderbyniwyd y ffurflen i'w chadarnhau heno. O ganlyniad, bydd rhaid cynnal cyfarfod arbennig cyn diwedd y mis i wneud hynny, gan fod angen cwblhau'r archwiliad cyn Medi 30ain.

b) **Meinciau Sarn Bach a Bwlchtocyn**
Derbyniwyd llythyrau diolch am y meinciau – a'r cyfraniad at hwyluso'r daith i Feddygfa Rhydbach ag O Ddrws i Ddrws hefyd. Diolchwyd yn fawr i EWR a'i fab am eu gosod.

c) **Yswiriant 2019 – 2020**
Derbyniwyd y ddogfennaeth a'r anfoneb i'w thalu cyn Medi 15fed (gweler 14. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod). Lawrlwythwyd copi (198 tudalen) o'r 'Local Community Advisory Service (LCAS)' arweinlyfr rhyngweithiol sy'n codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o risgiau posibl a all y Cyngor ei wynebu a darparu gwybodaeth am sut i'w rheoli.

ch) **Model Rheoliadau Ariannol Diwygiedig 2019**
Copi o'r uchod â nodyn yn hysbysu na wnaed ond mân newidiadau i fersiwn 2016, sef ychwanegwyd cyfyngiad at Reoliad 11.1.a.ii; diweddariad i'r terfynau dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus – troednodyn i Reoliad 11.1.b a mân newid i bennawd Rheoliad 12 – fe'u derbyniwyd.

d) **Swyddfa Archwilio Cymru – *Practitioners Guide – Governance and Accountability for Local Councils in Wales* (Cymru) (Argraffiad 2019)**
Lawrlwythwyd yr uchod (178 tudalen), sef cyfarwyddyd statudol i gynghorau.

9. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Materion yn y Gymuned/Ymholiadau Cynllunio/Gorfodaeth**
Unwaith yn rhagor ni dderbyniwyd ateb oddi wrth y Swyddogion Cynllunio.

b) **Cytiau Glan y Môr**
Yr un cofnod â'r uchod – ni dderbyniwyd ateb oddi wrth y Swyddogion Cynllunio nac Arweinydd y Cyngor.

c) **Canlyniadau Arolwg Cymdeithas Prif Swyddogion Cynllunio Cymru**
Copi o'r uchod, er gwybodaeth.

ch) **Apeliadau Cynllunio – 25 Tan-y-Gaer a Carrog, Aber-soch**
Anfonwyd sylwadau'r Cyngor at yr Arolygwr Cynllunio eisoes.

10. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Biniau Baw Ci**
i) Derbyniwyd copi o'r e-bost a dderbyniodd Cyng. John B. Hughes oddi wrth John Gosling, Cadeirydd Cymdeithas Dwristiaeth Aber-soch a'r Cylch, parthed gosod bin newydd/ychwanegol ym maes parcio Marchros.
ii) Adroddwyd bod angen bin baw cŵn mwy neu un ychwanegol yn Nant-y-Big neu dylid ei wagio'n amlach nag unwaith yr wythnos. Adroddwyd ei fod yn un a ddefnyddir fwyaf oherwydd prysurdeb Porth Ceiriad gan nad oes rheolaeth atal cŵn yno.

b) **Cais am Olau Stryd yn Stad Sant Tudwal, Mynytho**
Derbyniwyd gair o ddiolch am yr uchod.

c) **Rhybuddion Cau Ffyrdd yn y Gymuned**
i) ***Lôn Garreg, Mynytho*** – Medi'r ail i adnewyddu stop tap oedd yn gollwng.
ii) ***Aber-soch a'r Cylch*** **-** rhwng 9.30 a 11.55 bore Sadwrn, Medi 21ain ar gyfer Hanner Marathon Aber-soch.
iii) ***Canolfan Llanengan*** – dydd Llun, Medi 16eg i osod system cyflenwi tân domestig a thaenellwr newydd i eiddo cyfagos.

11. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) **Torri'r Llwybrau**
Ni dderbyniwyd ymateb oddi wrth Dewi Wyn Owen, Uwch Reolwr Hawliau Tramwy, i unrhyw ohebiaeth. Disgwylir yr ad-daliad blynyddol at dorri'r llwybrau.

b) **Cwyn**

Derbyniodd yr Aelod Lleol gŵyn am gyflwr llwybrau cyhoeddus Mynytho. Yn anffodus, braidd yn amwys yw'r disgrifiad i wybod at ba rai y cyfeirir - gofynna, wrth ateb y gwynwraig, os oes ganddi rif iddo a'i fod yn ei anfon ymlaen at y Cyngor. Soniwyd wrth y contractwr ond, ni allai yntau ei weithio allan ychwaith. Cysylltir â'r cwynwr i gael mwy o fanylion.

c) **SLCC – Adroddiad yn *The Times: 'Utility Companies may have to Dig up Footpaths, not Roads'***

Adroddwyd y datgela dogfen ymgynghorol Yr Adran Drafnidiaeth bod posibilrwydd y bydd rhaid i gwmnïau gwasanaethau cyhoeddus gladdu ceblau newydd a pheipiau o dan lwybrau cyhoeddus ac ymylon ffyrdd yn y dyfodol. Y bwriad yw osgoi tyllau a achosir o ganlyniad i ffyrdd gael eu hagor a'u cau'n aml.

12. **TRAETHAU**

Mynegwyd pryder am y diffyg achubwyr bywyd ar draethau'r gymuned, yn dilyn dau ddigwyddiad pan fu bron i ymdrochwyr foddi yn ystod y gwyliau. Deallwyd na all gweithwyr y traethau fod yn achubwyr bywyd. Codir y mater yn y cyfarfod a gynhelir ym mis Hydref â Barry Davies, Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.

Penderfynwyd gohirio trafodaeth ar Bwyntiau 14. Cefnogi Annibyniaeth i Gymru; 15. Ysgol Aber-soch a 16. Gohebiaeth ar y Rhaglen hyd at Gyfarfod Arbennig o'r Cyngor a gynhelir cyn diwedd y mis i gadarnhau Cyfrifon 2018 – 2019 oherwydd diffyg amser heno.

13. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C18/1163/39/RC	Diwygio Cytundeb 106 sy'n cyfyngu defnydd yr unedau gwyliau i gyfnod uchafswm o dri mis – The Stables and Granary, Ysgubor Hen, Cilan **– Caniatawyd yn ddiamodol**
C19/0097/39/LL	Dymchwel adeilad allanol presennol a chodi anecs nain newydd yn ei le **–** Creigir Goch, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C19/0119/39/LL	Trosi adeilad allanol yn anecs hunan gynhaliol **–** Cefn, Llanengan – **Caniatawyd ag amodau**
C19/0538/39/LL	Dymchwel modurdy ac estyniad cefn a chodi estyniad deulawr ochr i gynnwys modurdy integredig ac estyniad unllawr cefn **–** Coed yr Afon, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C19/0563/39/LL	Gosod ffenestr gromen cefn a ffenestr do blaen **–** Delphis, Llwyn Onn, Aber-soch – **Gwrthodwyd**
C19/0632/39/LL	Estyniad unllawr cefn â balconi uwchben ac addasiadau i do'r porth ac adain gefn **–** Tacoma, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C19/0707/39/LL	Cais i gynnal addasiadau ac ymestyn eiddo presennol **–** 5 Benarfryn, Lôn Traeth, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C19/0735/39/DA	Diwygiad ansylweddol i Ganiatâd Cynllunio C18/1049/39/LL er cynnwys ardal gysgodol i flaen y cwt glan môr, cytuno lliw'r cwt yn unol ag Amod 5 **–** Cwt Glan y Môr Marchros, Bwlchtocyn – **Caniatawyd ag amodau**

14. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Medi (Rh/S 002245) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Zurich Insurance – £743.43 (Rh/S 002247 – Yswiriant y Cyngor 2019 – 2020)
b) Elfyn Hughes – £1850.00 (Rh/S 00062 – Torri Gwellt y Fynwent)
c) E-on – £27.50 (D/U – Trydan y Toiledau)

Derbyniadau
a) Toiledau – £930.45 (Tâl Mynediad – £41.10, £54.40, £67.70, £56.90, £107.10, £93.70, £38.95, £71.50, £116.00, £37.00, £57.30, £72.40, £18.70, £68.90, £28.80)
b) Cyngor Gwynedd – £25,000.00 (Ail Daliad Praesept 2019 – 2020)

15. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Hydref 9fed, 2019 am saith o'r gloch